**Mark Drakeford AC / AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MB/MD/01297/14

David Rees AC
Cadeirydd,
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal
Cymdeithasol
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

15 Ebrill 2014

Annwyl David,

Yn ystod yr ymchwiliad i wasanaethau bariatrig yng Nghymru, byddwch yn cofio imi ymrwymo i ddarganfod mwy o wybodaeth ar gyfer y Pwyllgor.

O ran yr ymholiad ynghylch costau'r GIG yn trin cleifion yn sgil cymhlethdodau sy'n deillio o lawdriniaethau bariatrig preifat a sut mae adennill yr arian hwnnw; ar ôl i'm swyddogion wneud ymholiadau i'r GIG, darganfuwyd nad yw hynny'n bosibl oherwydd nad oes gan y GIG fynediad i gofnodion iechyd preifat. Gan amlaf, mater o reidrwydd yw'r gweithdrefnau hyn yn sgil cymhlethdodau yn ystod llawdriniaeth, ac weithiau fe'u hystyrir yn argyfwng. Nid oes gan y GIG ffordd ymarferol na realistig o adennill costau fel hyn.

Fel yr esboniais yng nghyfarfod y Pwyllgor, mae Llywodraeth Cymru wedi cwblhau asesiadau ar y ddarpariaeth gyfredol o wasanaethau ar bob lefel yn unol â safonau gofynnol Llwybr Gordewdra Cymru Gyfan o fewn Byrddau Iechyd Lleol unigol. Mae'r dystiolaeth wedi'i dadansoddi erbyn hyn, ac rydym yn gweithio gyda phob Bwrdd Iechyd i sicrhau eu bod yn fodlon â'r asesiad a wnaed. Mae hefyd yn bwysig eu bod yn cael cyfle i egluro pa gamau y byddant yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd y mae angen eu datblygu ymhellach. Byddwn yn cyhoeddi'r canlyniadau ar ddiwedd mis Mai.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o gymorth i chi.

Yn gywir

Mark Drakeford

**Mark Drakeford AC / AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services